**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

## Cyngor Cenedlaethol – ELWa

## Adroddiad Cynnydd : Tachwedd 2002

### CYFLWYNIAD A DIBEN

1 Cyfarfu'r Cyngor Cenedlaethol am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2001. Aeth yn 'fyw' ar 1af Ebrill 2001, pan gymrodd gyfrifoldeb dros lawer o waith y CHM blaenorol, y Cyngor Cyllido Addysg Bellach ac addysg oedolion barhaol. Yn Ebrill 2002 daeth y Cyngor yn gyfrifol am gyllido 6ed dosbarth.

2 Mae'r papur hwn yn hysbysu'r Pwyllgor o'r canlynol:

- **cyflawniad** a datblygiadau yn neunaw mis cyntaf y Cyngor Cenedlaethol;
- **Cynllun Corfforaethol 2003-2006** sydd i ddod; a
- cynnydd y **System gyllido a Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol** newydd.

3 Bydd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn ychwanegu at y papur hwn gyda chyflwyniad byr.

### CYFLAWNIAD

4 Ym mlwyddyn weithredol 2001-2002 roedd y canlynol ymysg y llwyddiannau:

- cyrraedd targedau uchelgeisiol a etifeddwyd ar gyfer Addysg Bellach, Cyfrifon Dysgu Unigol, Prentisiaethau Modern, y Diploma Sgiliau Modern i Oedolion (MSDA) a Dysgu'n y Gwaith ar gyfer Oedolion;
  - dechreuodd dros 25,000 o bobl ifanc ddysgu'n y gwaith – ychydig yn uwch na'r targed o 24,662;
  - 5,380 o oedolion yn dysgu'n y gwaith gyferbyn â tharged o 5,841;
  - dechreuodd dros 900 y Diploma Sgiliau Modern i Oedolion newydd (MSDA) o'i gymharu â'r targed o 700;
  - roedd Dadansoddi Anghenion Hyfforddiant ar gyfer busnes 70% uwchlaw'r nod gyda 1329 o fusnesau'n manteisio ar y gwasanaeth er mai 464 o gwmnïau - llai na'r targed o 615 – ddefnyddiodd y Cynllun Hyfforddi Cwmnïau Bach;
- cyflenwi 305 o brosiectau Cronfa Arloesi a Datblygu: yn cyflwyno gwaith arloesol ar, er enghraifft, Cyfrifon Dysgu Cwmnïau, Rhwydweithiau Rhagoriaeth, e-ddysgu;

- lansio cryn ymgyrch farchnata strategol i godi'r galw am addysg oddi wrth unigolion a chyflogwyr ac i ddatblygu diwylliant o ddysgu gydol oes;

- datblygu Strategaeth Gorfforaethol 10 Mlynedd a'n Cynllun Corfforaethol cyntaf, yn dilyn un o'r prosesau ymgynghorol mwyaf cynhwysfawr a wnaed erioed gan gorff cyhoeddus yng Nghymru,

- cyfrannu at brif ddatganiadau polisi Llywodraeth y Cynulliad gan gynnwys, 'Cymru ar ei Hennill' a 'Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth';

- sefydlu pedwar pwyllgor rhanbarthol; datblygu datganiadau cyntaf o anghenion a blaenoriaethau rhanbarthol;

- datblygu Memoranda Dealltwriaeth / cynlluniau gweithredu gyda'n partneriaid allweddol, gan gynnwys HEFCW, Awdurdod Datblygu Cymru, Gyrfa Cymru, ACCAC, Estyn a Canolfan Gwaith a Mwy;

- cyfuno staff chwe chorff â'n rhagflaenodd a datblygu gweledigaeth, naws a pholisïau cynhaliol newydd ar gyfer y Cyngor Cenedlaethol. Addasu etifeddu, a chyflwyno systemau busnes, prosesau a threfnau newydd. Profi anawsterau gyda rhai contractau; a

- gostwng staff o'r 623 swydd a etifeddwyd i 500, ond gan gynnal rhwydwaith datganolog o swyddfeydd heb bencadlys traddodiadol. Cyflwyno cyflogau ac amodau cydlynol, gan gynnwys cyflog cyfartal.

5 Cynhaliwyd y cynnydd hwn yn 2002-2003:

- ar amser, neu well, gyda rhan fwyaf y targedau yn ein Cynllun Gweithredol, 2002-2003, (Atodiad 1), er enghraifft:

  - mae hyfforddeion yn dysgu'n y gwaith, sydd 26% uwchlaw'r targed, gyda 41,320 mewn hyfforddiant ar hyn o bryd;

  - mae 130 o gyrff wedi ennill cydnabyddiaeth BmP – cynnydd o draean;

  - ar yr hanner blwyddyn rydym 9% i lawr ar gyfranogwyr Prentisiaeth Fodern gyda 2,300 wedi ymuno, ond rydym yn disgwyl taro'r nod erbyn diwedd y flwyddyn.

  - mae nifer y cwmnïau (1,500) a gefnogwyd gyda datblygu'r gweithlu fymryn islaw'r nod.

- buddsoddiad ychwanegol mewn dysgu'n y gwaith i sicrhau canlyniadau dysgu ychwanegol;

- cyhoeddwyd hyblygrwydd newydd pob oed mewn dysgu'n y gwaith gan y Gweinidog ym mis Hydref;

- cyflwynwyd cynllun rhagbrofi hyfforddiant CGCIII di-dâl yn 'Llanelli – Tref Ddysg';

- ymestyn cynllun rhagbrofi'r Cyfrif Dysgu Cwmni;

- symud ymlaen ein gwaith ar Sgiliau Dyfodol Cymru'n barod ar gyfer yr ail arolwg sylweddol yn gynnar yn 2003;

- atgyfnerthu ein huned sgiliau i weithio gyda'r Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector a Chynghorau Sgiliau Sector newydd. Buddsoddi mewn prosiectau sgiliau sector ac yn gweithio ar y cyd ag Awdurdod Datblygu Cymru a Llywodraeth y Cynulliad ar waith a blaenoriaethu sectoraidd;

- adolygu ein hagwedd at ddatblygu 'Cymunedau Dysg' i gefnogi Cymunedau'n Gyntaf;

- cynnal cryn adolygiadau o ddysgwyr gydag anawsterau dysgu, cysylltiadau addysg a busnes, cefnogaeth i fusnes, CCET a dysgu seiliedig ar y tir;

- wedi lansio Cronfa Her Dysgu i ehangu cyfleoedd dysgu trwy agweddau a phartneriaethau newydd arloesol;

- crëwyd Uned Dysgu Dwyieithog i symud strategaeth a gweithredu ymlaen;

- buddsoddwyd llawer o amser ac ymdrech yn ein 'gyrwyr newid' – yr allweddi i lwyddiant yn y dyfodol (gwelwch baragraff 13 isod);

- cafwyd cymeradwyaeth y Comisiynydd Gwybodaeth i'n Cynllun Cyhoeddi Rhyddid i gael Gwybodaeth; datblygu Cynllun Cydraddoldeb Hiliol a Chynllun Iaith Gymraeg.

- ceisio cael gwelliannau parhaol yn ein gweithrediad a chyflenwi gwasanaethau trwy fuddsoddi mewn system gyllid newydd, gyfun a phrosesau busnes eraill, a achosodd beth oedi o ran talu darparwyr.

- dechrau adolygiad ychwanegol o strwythur a maint y sefydliad yng ngoleuni blaenoriaethau sy'n ymddangos o'r Cynllun Corfforaethol a gweithredu'r system gynllunio a chyllido newydd.

## CYNLLUN CORFFORAETHOL 2003-2006

6 Cyflwynwyd Cynllun Corfforaethol drafft 2003-2006 i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Gorffennaf. Mae'n adeiladu ar y gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn gyntaf y Cyngor i ddatblygu Strategaeth Gorfforaethol 10 Mlynedd a'i Gynllun Corfforaethol cyntaf. Cyfannwyd yr ymgynghori helaeth a wnaed yr adeg honno gydag ymgynghori mwy canolbwyntiedig ar y cynllun drafft, ynghyd ag ymgynghoriadau penodol ar y System Gynllunio a Chyllido Genedlaethol, Fframwaith Sicrhau Ansawdd, cronfa ddata gynhwysfawr o ddysgwyr ôl-16 a'r Fframwaith Credyd a Chymwysterau arfaethedig.

7 Bydd drafft terfynol y Cynllun Corfforaethol, i'w gyflwyno i'r Gweinidog ym mis Rhagfyr, yn seiliedig ar ddyraniad cyllideb terfynol Llywodraeth y Cynulliad. Bydd y Cynllun yn cael ei gyhoeddi ar ôl ei gymeradwyo gan y Gweinidog. Bydd Cynllun Gweithredol drafft ar gyfer 2003-2004, yn cynnwys manylion o weithgaredd, canlyniadau a dyrannu adnoddau, yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog ym mis Chwefror 2003.

8 Ein nod yw bod y Cynllun Corfforaethol yn gyrru busnes y Cyngor Cenedlaethol. Bydd yn sefydlu'r adnoddau i'w dyrannu i'r system gyllido genedlaethol newydd. Bydd ar sail asesiadau trwyadl o alwadau ac anghenion dysgwr (unigolion, busnesau, cymunedau). Bydd Cynllun Corfforaethol y flwyddyn nesaf, 2004-2007, yn sail i weithrediad llawn y System gyllido a Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol newydd.

9 Mae'r Cyngor wedi cadw'r fframwaith sylfaenol yn ei Strategaeth Gorfforaethol 10 Mlynedd ar gyfer 2003-2006:

*Cydweledigaeth:*

*Making Learning Work for You*
*Mynnwch Elwa ar Ddysg*

*Cenhadaeth y Cyngor Cenedlaethol:*

*I hyrwyddo dysgu gydol oes a darparu cyfleoedd dysgu di-ail i bawb yng Nghymru gyrraedd eu llawn allu.*

*Pum Nod Allweddol:*

- *Sicrhau Sgiliau Hanfodol*
- *Creu Dysgwyr Gydol Oes*
- *Datblygu'r Gallu i Gymhwyso Gwybodaeth*
- *Gwella Sgiliau ar gyfer Busnes*
- *Hyrwyddo Cymunedau Dysg*

*Yn sail i'r pum nod ac i'w cyfannu mae'r nod o ddatblygu'r rhwydwaith dysgu a'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa.*

*Pedair Thema Drawstoriadol:*

- *Cyflawni Cynaladwyedd*
- *Sicrhau Cyfle Cyfartal*
- *Hyrwyddo Cynhwysiad Cymdeithasol*
- *Sicrhau Dwyieithrwydd*

10 Mae gan y Cyngor dair blaenoriaeth sy'n cefnogi ei gilydd:

- dysgu sy'n paratoi pobl Cymru i ddiwallu anghenion economïau lleol, cenedlaethol, y DU a byd-eang;
- gyrru ansawdd dysgu'n uwch yng Nghymru; a
- symbylu diwylliant o ddysgu, gan gynyddu ac ehangu cyfranogiad.

11 Mae ein cynlluniau a blaenoriaethau at y dyfodol ar sail:

- agenda uchelgeisiol Llywodraeth Cynulliad Cymru, o ran y dyfodol agos a'r angen am gryn welliant hirdymor yn y rhwydwaith dysgu fel ei gilydd;

- asesiad sy'n datblygu o anghenion a heriau dysgu yng Nghymru, fel sy'n cael ei adlewyrchu yn ein gwybodaeth genedlaethol o'r farchnad a'r Datganiadau o Anghenion a Blaenoriaethau Rhanbarthol a ddatblygodd Pwyllgorau Rhanbarthol y Cyngor, ar ôl ymgynghori â CCET;

- amcanion rhaglenni Cronfa Strwythurol Ewrop; a

- gofynion deddfwriaethol newydd fel Deddf Camwahaniaethu ar Sail Anabledd, Deddf (Diwygio) Cysylltiadau Hiliol a Deddf Rhyddid Gwybodaeth.

12 Mae dyraniad cyllideb Llywodraeth y Cynulliad yn galluogi ehangu dysgu'n sylweddol dros dair blynedd y Cynllun Corfforaethol.

**Cyngor Cenedlaethol – ELWa, Cymorth Grant (GIA) a Chostau Cynnal**

| *Blwyddyn* | *2002-03* | *Man cychwyn 2003-04* | ***Cynlluniau newydd 2003-04*** | *Man cychwyn 2004-05* | ***Arwyddol 2004-05*** | *Man cychwyn 2005-06* | ***Arwyddol 2005-06*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant | £462.6m | £465.0m | **£479.9m** | £465.0 | **£493.3m** | £465.0m | **£526.6m** |
| Costau Cynnal | £21.29m | £17.84m | **£17.84m** | £17.84 | **£18.8m** | £17.84m | **£20.8m** |
| KEF* | £10.5m | £10.0m | **£6.0m** | £10.0m | **£14.5m** | £10.0m | **£20.0m** |

* Gwariant y ddau Gyngor ar y cyd. Y Cynulliad i hysbysu'r dosraniad.

13 Blaenoriaethau arbennig ar gyfer y Cynllun Corfforaethol hwn yw:

- **Cyfrifon Dysgu Unigol 2 -** fydd yn bwrw ymlaen yn 2003-2004;

- Adneuwyd £9m i ddarparu cynnydd sylweddol yng **nghyflogau staff AB**. Mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i gyrraedd cydraddoldeb rhwng cyflogau staff ysgol a staff AB erbyn 2005;

- **ysgolion** i gael cyllid digonol i gyfarfod y cynnydd yn nifer y disgyblion a chyfran ôl-16 o unrhyw gynnydd yng nghyflogau athrawon yn y dyfodol;

- cynyddu **dysgu dwyieithog**;

- llunio **Rhwydwaith Dysgu'r Dyfodol** mwy effeithlon ac effeithiol fydd yn dod â gwelliannau sylweddol i ddarpariaeth ddysgu ôl-16 yng Nghymru.

- yn hanfodol, ein gyrwyr newid; cyflwyno **System Cynllunio a Chyllido (Caffael) Cenedlaethol** newydd **yn cael ei harwain gan y galw** gyda chefnogaeth:

  - **Fframwaith Sicrhau Ansawdd** trwyadl newydd;
  - **Marchnata Strategol** yng ngoleuni **Ymchwilio Cwsmeriaid** a **Gwybodaeth o'r Farchnad**;
  - **Dangosyddion Cyflawniad Strategol** sy'n mesur symud tuag at ein nodau a chyflawni galw am ddysgu, cyfranogiad, darparu, dilyniant a llwyddiant;

- **Cronfa Ddata (LLWR) Dysgwyr ôl-16** gynhwysfawr newydd unigol, dysgwr-ganoledig**.**

**SYSTEM GYLLIDO A FFRAMWAITH CYNLLUNIO CENEDLAETHOL**

14 Gofynnodd Llythyr Cyfrifoldeb y Gweinidog yn Ionawr 2001 i'r Cyngor Cenedlaethol gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r trefniadau cyllido ar gyfer dysgu ôl-16, heblaw addysg uwch, a gwneud argymhellion i ddatblygu system gyllido newydd.

15 Etifeddodd y Cyngor Cenedlaethol bedair prif system gyllido (a gwahanol iawn), pob un wedi ei llunio i gyllido dysgu trwy wahanol fathau o ddarparwyr: sefydliadau AB; darparwyr hyfforddiant preifat o ddysgu'n y gwaith; chweched dosbarth ysgolion ac addysg oedolion barhaol awdurdodau lleol. Mae'r systemau etifeddol hyn yn her arbennig i'r Cyngor Cenedlaethol.

16 Gofynnodd y Gweinidog bod cynigion drafft ar gyfer y system newydd ar gael i'w hystyried yn gyhoeddus ym mis Medi 2002. Daeth yr ymgynghori i ben ar 31 Hydref.

17 Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghori, bydd y Cyngor Cenedlaethol yn gwneud argymhellion ffurfiol i'r Gweinidog yn gynnar ym mis Rhagfyr. Yn gryno, y rhain yw:

- Agwedd unigol, gydlynol at gynllunio a chyllido holl ddarpariaeth ddysgu ôl-16;
- cylch cynllunio a chyllido tair blynedd;
- agwedd unol at gynllunio, yn cael ei harwain gan y galw;
- blwyddyn gyllido gyffredin – mis Awst i fis Gorffennaf;
- agwedd gyffredin at brisio. Bydd hyn yn cyfrif am fwyafrif prynu darpariaeth addysg y Cyngor Cenedlaethol;
- prynu a gomisiynwyd gan y dysgwyr wedi ei lunio i roi grym prynu i ddysgwyr (unigolion, busnesau, cymunedau) dros ddarpariaeth a darparwyr addysg, gan gynyddu drwy hynny eu dylanwad dros yr addysg sy'n cael ei chyflwyno. Mae cyngor annibynnol a marchnata strategol yn hanfodol i gynorthwyo creu defnyddwyr addysg gwybodus;
- agwedd gyfun at roi cefnogaeth ariannol i ddysgwyr mewn angen (lle nad yw Grant Dysgu'r Cynulliad yn diwallu eu hanghenion yn llawn);
- rhaglen fuddsoddi mewn seilwaith ac adeiladu gallu; ac
- cyllido yn gysylltiedig â Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru i sicrhau'r hyblygrwydd eithaf mewn cyfleoedd dysgu.

18 Mae'r Grŵp Budd-ddeiliaid Allanol, a sefydlwyd i gynghori'r Cyngor, wedi croesawu canlyniadau'r ymgynghoriad. Bydd pryderon ynghylch maint y cymorth ariannol o dan y trefniadau prisio newydd yn cael sylw llawn pan fydd modelu yn cael ei gynnal gyda data cadarn yn y Flwyddyn Newydd. Y bwriad

yw i'r Gweinidog a'r Pwyllgor ystyried yr elfen hon o'r system newydd ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf 2003.

19 Y camau nesaf, yn amodol ar gael cymeradwyaeth y Gweinidog o'r argymhellion, yw:

- cyflwyno'r fframwaith cynllunio newydd yn gynnar yn 2003 i bennu prynu darpariaeth o Awst 2004 ymlaen;
- trefniadau pontio i ddarparwyr dysgu'n y gwaith ar gyfer 2003-2004;
- cyflwyno gam wrth gam yr agweddau newydd ar brynu a gomisiynwyd gan ddysgwyr, buddsoddiad yn y rhwydwaith dysgu a chefnogaeth ariannol i ddysgwyr o Awst 2003 ymlaen;
- cyflwyno system gasglu data newydd, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR), o Awst 2003 ymlaen; a
- cyflwyno, ar yr un pryd ar gyfer pob sector o Awst 2004 ymlaen, y system brisio newydd, wedi ei chymedroli gyda golwg ar yr adnoddau fyddai wedi cael eu darparu o dan y systemau presennol, yn hytrach na chyflwyniad gam wrth gam o Awst 2003 ymlaen. Bydd hyn yn caniatáu profi'r model yn llawn; datblygu dyfeisiau i 'wanhau' effaith codiadau pris a 'chlustogi' effeithiau gostyngiadau pris a dyfodiad systemau gwybodaeth reoli newydd yn foddhaol.

**Atodiad 1**

**CYNGOR CENEDLAETHOL – ELWa**
**Cynllun Gweithredol 2002-2003 – Targedau Allweddol**

**Ein Gwaith yn y Flwyddyn a Ddaw**

Rydym wedi ymroddi i gael y cyfranogiad mwyaf mewn dysgu o bob un o 1.7 miliwn o bobl oed gwaith yng Nghymru. Gan weithio gyda 26 Sefydliad Addysg Bellach, dros 200 o ddarparwyr dysgu'n y gwaith, 170 chweched dosbarth mewn ysgolion uwchradd, Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant (CCET), a llawer o bartneriaid yn y sectorau gwirfoddol ac eraill, byddwn yn buddsoddi dros £487m mewn addysg.

**O ran unigolion a'u cymunedau bydd y buddsoddiad hwn yn cefnogi:**

- 17% o boblogaeth oed gwaith Cymru i ddilyn cyfleoedd dysgu mewn addysg bellach, dysgu'n y gwaith neu chweched dosbarth ysgolion;
- cyflawni rhyw 220,000 o gymwysterau mewn darpariaeth Addysg Bellach a dysgu'n y gwaith;
- tua 25,000 o ddysgwyr Chweched Dosbarth;
- rhyw 275,000 o ddysgwyr mewn Sefydliadau Addysg Bellach a dysgu'n y gwaith, cynnydd o 4% ar 2000-01;
- 8,000 o ddysgwyr yn dilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg, cynnydd o 9% ar 2000-01;
- 17,500 o ddysgwyr ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion;
- 31,000 o bobl i ddechrau cyrsiau dysgu'n y gwaith gyda 62.5% o holl bobl ifanc a 35.5% o oedolion yn cyflawni cymwysterau galwedigaethol cenedlaethol llawn, cynnydd o tuag 20% ar 2001-02;
- 8,230 o bobl ifanc, cynnydd o 5% ar 2001-02, a 2,200 o oedolion, cynnydd o 16% ar 2001-02, yn ymuno â rhaglenni wedi eu llunio i baratoi dysgwyr at symud i mewn i ddysgu galwedigaethol llawn;
- cynnydd mewn dysgwyr, mewn Sefydliadau Addysg Bellach a dysgu'n y gwaith, sy'n byw yn wardiau tlotaf Cymru i 60,500 (cynnydd o 5% ar 2000-01); a
- rhyw 5,000 o siaradwyr ieithoedd eraill yn dysgu Saesneg.

**O ran busnesau bydd y buddsoddiad hwn yn cefnogi:**

- tua 54,000 o gofrestriadau mewn Sefydliadau Addysg Bellach ar gyrsiau cysylltiedig â busnes;
- cynnydd o 30% mewn cyraeddiadau sgiliau uwch gyda dros 1,000 o ddysgwyr mewn Sefydliadau Addysg Bellach neu ddysgu'n y gwaith yn debygol o gyflawni CGC 4 neu gyfartal yn 2002-03;
- dros 5,000 o brosiectau gyda chyflogwyr i wella sgiliau mewn busnesau, cynnydd o 22% ar 2001-02;
- 5,900 o ddechreuwyr ar raglenni Prentisiaeth Fodern, cynnydd o 14% ar 2001-02;
- 3,220 o athrawon ar leoliadau mewn diwydiant neu fasnach, cynnydd o 13% ar 2001-02;
- 990 busnes yn cynnal cynlluniau datblygu cwricwlwm gwyddoniaeth a thechnoleg mewn ysgolion, cynnydd o 30% ar 2001-02; a

- 278 o gyrff yn cael eu cydnabod fel Buddsoddwyr mewn Pobl.